

Thomas Powell Thomas Powell
Thomas Powell

238

Y MOR COCH.

B. MORGAN, ARGRAFFYDD, MERTHYR.

Chwythwch yr udgyrn ar gopa Baalsephon,
Gorchfygodd Jehofa! daeth rhyddid i'r caethion.
Cenwch:—ucheldrem y gelyn a dorwyd,
Carlamau'r gwŷr meirch yn y tywod arafwyd:
Mor wag oedd eu bost! ni wnaeth Duw ond
llefaru,
Dyna fyrdd yn y dôn yn gwingo ac yn trengu!

Cenwch yr udgyrn ar glögwyn Baalsephon,
Marchogodd Jehofa ar war ei elynion;
Mawl, mawl i'r Gorchfygydd, Hosanah i'r Ior,
Yr ormes y gladdwyd yn meddrod y môr!
Ei air oedd y saeth a ennillodd yr orchest,
Anadl ei firoenau oedd cleddyf y goncwest.

Pwy ddychwel â'r newydd i'r Aiphit am y nifer
A yrodd hi allan yn niwrnod ei balchder?
Edrychodd yr Arglwydd o le ei ogoniant,
A'i miloedd yn nhrochion y llif a soddasant!
Chwythwch yr udgyrn ar aelgerth Baalsephon,
Mae Israel yn rhydd, a Pharaon yn yr eigion!

CAN MOSES.

Jehofa sy'n teyrnasu,
 A'i enw'n gadarn IOR,
 Fe roes y march a'r marchog
 I gysgu yn y môr;
 Er cymaint eu cynddaredd,
 Er uched oedd eu rhoch,
 Fe'u claddwyd megis careg
 Yn eigion y Môr Coch.

Preswylwyr Palestina,
 A Sehon fawr ei rym,
 A brenhiniaethau Canaan,
 A ddethant oll i'r dim:
 O flaen Jehofa Nissi,
 A'r wialen ar y bryn,
 Amalec falch a gwypodd,
 Fe gofir 'rhawg am hyn.

Yr Arglwydd sydd ryfelwr,
 A noddwr Seion wan,
 Ei nerth, ei chân, a'i lloches,
 Yn nghanol dwfr a than:
 Ei ddeheulaw ardderchog
 A ddryllia'r gelyn cas;
 Aneirif yw ei ddial,
 Rhyfeddol yw ei ras.

CAN YR OEN.

O deued nef a daear lawr
 I foli'r Oen, yn dyrfa fawr,
 Fu farw ar Galfari brydnawn :
 Anfeidrol gariad Ior y nef,
 Rhown iddo glod âg uchel lef,
 Un fryd, un llais, yn beraidd iawn !

Fe'i rhow'd yn aberth ar y groes,
 Dyoddefodd yno angau loes ;
 Agorodd fiordd i dd'od at Dduw,
 O ryfedd ras tywysog hedd
 At lwch y llawr oedd wael ei wedd,
 Mae modd i'r euog i gael byw.

Gwnai'r haul dywyllu entrych nen
 Pan oedd e'n dyoddef ar y pren,
 I brynu gwael golledig ddyn !
 Pwy ddichon lai wrth gofio hyn,
 Na moli'r Oen fu ar y bryn,
 Am fodd i olchi'r dû yn wyn ?

Bydd baner yr Oen ar bob clogwyn trwy'r India,
 Fy enaid cana haleluia.

Cwyn y Negro am Ryddhad.

“ SWEET HOME.”

Brutania, Brutania, clyw, gwrando fy llef,
Ac aed fy ngriddianau i glustiau y nef,
Am ryddid o'm blinfyd, O brysied yr awr
Caiff fflangell drom *Massa* ei thafu i lawr,
Daw, daw 'r hyfryd ddydd,
I'r negro o'i rwymau gael myned yn rhydd.

'Rwy'n frawd i chwi, Gymry, er dued fy lliw,
Mewn dygn gaethiwed, o'r braidd r'wy'n cael byw;
Rhowch lef yn wastadol at orsedd Duw Ion,
Am iddo fy ngwared i allan o'm poen.
Daw, daw 'r hyfryd ddydd, &c.

Gwirionedd a glywodd y Negro, er caeth,
Y newydd dramwyodd—o Frydain y daeth,
Fod ffynnon Calfaria yn golchi yn lân
Y Negro, er tloted, er dued ei raen.
Daw, daw 'r hyfryd ddydd, &c.

Os gwelir y Negro rhyw fore yn lân,
Rhyfeddol y canmol, ac uchel ei gân:
I'r hwn a fu farw a'r groesbren brydnawn
Y byddo'r gogoniant a'r moliant yn llawn.
Daw, daw 'r hyfryd ddydd, &c.

Pryd hyn sychir dagrau y Negro dŷ bach,
Pryd hyn y ceir gweled ei fod yn holl-iach;
Heb loes nag un fflangell, nag aeth tan ei fron,
Yn mynwes Jehofa, o gyraedd pob ton.
Daw, daw 'r hyfryd ddydd, &c.

Rhyfeddol fydd gweled y dyrfa yn nghyd,
O bob llwyth ac ieithoedd, o bedwar ban byd;
A'r Negro bach, yntau, er dued ei liw,
'Mysg ereill o'r dyrfa, yn canmol ei Dduw.
Daw, daw 'r hyfryd ddydd, &c.